Cardiff Council Update: 22nd July

In the latest update from Cardiff Council: Cardiff's desire to honour the city's 'Codebreakers'; together we can keep people safe, a campaign encouraging people to contact social services; a free virtual leadership programme for 11 to 15 year olds; and get a taste of the Cardiff Food and Drink Festival delivered straight to your door.

Cardiff's desire to honour the city's 'Codebreakers'

Finding a way to honour and promote the history of Cardiff's incredible sporting heroes, who left their homes behind to pursue greatness as Rugby League players in the north of England, will be the aim of a new working group drawn together by Cardiff Council leader, Huw Thomas.

Several of the northern code's greatest-ever players hailed from Cardiff, many of them Black sportsmen who had to leave South Wales to further their careers. They went on to break down barriers and become heroes and role models to hundreds of thousands between the 1920s and the 1970s.

Following on from the huge interest created by the BBC TV documentary "The Rugby Codebreakers", a number of groups have come forward seeking to build on the momentum provided by the inspirational stories of players such as Billy Boston, Jim Sullivan, Roy Francis, Colin Dixon, Johnny Freeman and Clive Sullivan.

Cllr Thomas said: "As a council we are often approached to see how the outstanding contributions made by so many of our great sportsmen and women might be celebrated. But what became obvious from the 'Codebreakers' programme was how the story of rugby league has largely gone unnoticed here, and what's really fascinating is the social and racial background behind why so many players went 'North'.

"As we all take stock to consider the Black Lives Matter campaign and examine how Wales' Black History is reflected in our public spaces, the story of the 'Codebreakers' is clearly one that resonates today. Many of these incredible men were Black, and many felt they had to leave Cardiff to get an opportunity in life. They went on to become huge stars and fantastic role models, yet there is no statue or plaque in their hometown to celebrate that."

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24405.html

Together we can keep people safe

A campaign has been launched across Wales to encourage people to contact social services if they are worried that a family member, friend or neighbour is at risk of abuse, neglect and harm.

Social Services in Wales has seen a reduction in referrals to its services since lockdown. Abuse, neglect and harm hasn't stopped but opportunities to spot the

signs have reduced as access to childcare settings, schools, and social situations has been limited.

It is now more important than ever that we look out for each other and encourage people to contact their local social services or call 101 if they are worried that someone could be at risk.

Visit the Safe Help website https://gov.wales/safe-help/keeping-people-safe for more information about local social services and how to raise your concerns. If your call is more urgent dial 101, or in emergency call 999.

Together we can keep children, young people and adults safe.

Free virtual leadership programme for 11-15 year olds

Cardiff pupils aged 11-15 can take part in a virtual leadership programme during the summer break. The Global Social Leaders will help students to build leadership, future world of work and confidence skills during 3 hours of online lessons and workshops every day for one week.

Participants need to commit to only 5 mornings of lessons at a time convenient to them, they then have access to online resources and a pastoral mentor. Our Child Friendly Team will then support participants to form a team and set up their own social action project in September.

The opportunity will be allocated on a first come, first served basis and is open to young people across 10 countries so please promote widely and encourage individuals to register ASAP.

There will be a virtual pupil assembly and a parents evening event where any questions can be answer, details are enclosed in the information package.

The programme is open to Cardiff pupils attending a state funded school following a partnership between Cardiff Education Service, Foundation UK and Wellington Leadership Institute.

Find out more information and register here:
https://www.globalsocialleaders.com/gsl-summer-catalyst-at-home/

Get a taste of Cardiff Food and Drink Festival delivered to your door

Every year, more than 100 artisan producers, independent food traders and street food vendors pitch up in Cardiff Bay on the first weekend in July for the Cardiff Food and Drink Festival – but this year the food (and a taste of the festival experience) can be delivered straight to your door.

The new festival website hosts recipes, music, and an online market place where visitors can order a range of premium quality local and international food and drink –

things like delicious cakes, marinades, flavoured oils, preserves, speciality gins and cider, and more - directly from the people who make them: https://www.cardifffoodanddrinkfestival.com/

The Cardiff Food and Drink Festival website will run throughout July.

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 22 Gorffennaf

Y diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: awydd Caerdydd i anrhydeddu 'Torwyr Codau' y ddinas; gyda'n gilydd gallwn gadw pobl yn ddiogel, ymgyrch sy'n annog pobl i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol; rhaglen arweinyddiaeth rithwir am ddim i bobl ifanc rhwng 11 a 15 oed; a blas ar Ŵyl Bwyd a Diod Caerdydd yn eich cartref eich hun.

Awydd Caerdydd i anrhydeddu 'Torwyr Codau' y ddinas

Nod gweithgor newydd a dynnwyd ynghyd gan arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas, fydd dod o hyd i ffordd o anrhydeddu a hyrwyddo hanes arwyr chwaraeon anhygoel Caerdydd, a adawodd eu cartrefi ar drywydd llwyddiant fel chwaraewyr Rygbi'r Gynghrair yng ngogledd Lloegr.

Roedd nifer o chwaraewyr gorau erioed y cod gogleddol yn hanu o Gaerdydd, llawer ohonynt yn chwaraewyr croenddu yr oedd rhaid iddynt adael de Cymru i ddatblygu eu gyrfaoedd. Aethant yn eu blaen i chwalu rhwystrau a dod yn arwyr ac yn fodelau rôl i gannoedd o filoedd o bobl rhwng y 1920au a'r 1970au.

Yn dilyn y diddordeb enfawr a grëwyd gan raglen ddogfen deledu'r BBC "The Rugby Codebreakers", mae nifer o grwpiau wedi dod ymlaen i geisio adeiladu ar y momentwm a grewyd gan y straeon am chwaraewyr fel Billy Boston, Jim Sullivan, Roy Francis, Colin Dixon, Johnny Freeman a Clive Sullivan.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas: "Mae'r Cyngor yn cael cyswllt rheolaidd i weld sut y gellir dathlu'r cyfraniadau eithriadol a wnaed gan gynifer o'n chwaraewyr amlycaf. Ond beth ddaeth yn amlwg o'r rhaglen 'Codebreakers' oedd sut mae stori rygbi'r gynghrair wedi mynd yn ddisylw i raddau helaeth yma, a beth sy'n hynod ddiddorol yw'r cefndir cymdeithasol a hiliol y tu ôl i pam aeth cymaint o chwaraewyr i Ogledd Lloegr.

"Wrth i ni i gyd fynd ati i ystyried ymgyrch Mae Bywydau Duon o Bwys a meddwl am sut mae Hanes Pobl Dduon yng Nghymru yn cael ei adlewyrchu yn ein mannau cyhoeddus, mae stori'r 'Codebreakers' yn amlwg yn un sy'n berthnasol heddiw. Roedd llawer o'r dynion anhygoel hyn yn Ddu, ac roedd llawer yn teimlo bod rhaid iddynt adael Caerdydd er mwyn cael cyfle mewn bywyd. Aethant ymlaen i fod yn sêr enfawr ac yn fodelau rôl gwych, ac eto nid oes cerflun neu blac yn eu tref enedigol i ddathlu hynny."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24406.html

Gyda’n gilydd gallwn gadw pobl yn ddiogel

Mae ymgyrch yn lansio heddiw ar draws Cymru i annog pobl i gysylltu â’r gwasanaethau cymdeithasol os ydynt yn bryderus bod aelod o’r teulu, ffrind neu gymydog mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru wedi gweld lleihad mewn atgyfeiriadau i’w gwasanaethau ers y cyfyngiadau. Mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn dal i ddigwydd ond mae’r cyfleoedd i adnabod yr arwyddion wedi lleihau oherwydd bod mynediad cyfyngedig i leoliadau gofal plant, ysgolion a sefyllfaoedd cymdeithasol.

Yn awr, mae’n bwysicach nag erioed ein bod ni’n gofalu am ein gilydd ac yn annog pobl i gysylltu â’u gwasanaethau cymdeithasol lleol neu ffonio 101 os ydynt yn poeni bod rhywun mewn perygl.

Ewch i’r wefan lach a Diogel https://llyw.cymru/iach-a-diogel/cadw-pobl-yn-ddiogel i gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau cymdeithasol lleol a sut i fynegi pryder. Os yw eich galwad yn un brys ffoniwch 101, neu mewn argyfwng ffoniwch 999.

Gyda’n gilydd gallwn gadw plant, pobl ifanc ac oedolion yn ddiogel.

Rhaglen Arweinyddiaeth Rithwir Am Ddim ar gyfer pobl ifanc 11-15 mlwydd oed

Bydd cyfle i ddisgyblion 11-15 mlwydd oed yng Nghaerdydd gymryd rhan mewn rhaglen arweinyddiaeth rithwir yn ystod gwyliau’r haf. Bydd yr Arweinwyr Cymdeithasol Byd-eang yn helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau arweinyddiaeth, byd gwaith y dyfodol a magu hyder yn ystod 3 awr o wersi a gweithdai ar-lein bob dydd am wythnos.

Bydd gofyn i gyfranogwyr ymrwymo i ddim ond 5 bore o wersi ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, ac yna byddan nhw’n gallu manteisio ar adnoddau ar-lein a mentor bugeiliol. Bydd ein Tîm sy’n Ystyrlon o Blant wedyn yn helpu cyfranogwyr i roi tîm at ei gilydd a sefydlu eu project gweithredu cymdeithasol eu hunain ym mis Medi.

Bydd lleoedd ar y rhaglen yn cael eu neilltuo ar sail y cyntaf i'r felin ac mae'n agored i bobl ifanc ar draws 10 gwlad felly cofiwch hyrwyddo'r cyfle’n eang ac annog unigolion i gofrestru cyn gynted â phosibl.

Bydd y rhaglen yn cynnwys cynlluniad rhithwir i ddisgyblion a digwyddiad gyda'r nos i rieni, lle y gellir ateb unrhyw gwestiynau. Amgaeir y manylion yn y pecyn gwybodaeth.

Mae'r rhaglen yn agored i ddisgyblion Caerdydd sy'n mynychu ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn dilyn partneriaeth rhwng Gwasanaeth Addysg Caerdydd, Foundation UK a Wellington Leadership Institute.

Dysgwch ragor a chofrestrwch yma:
https://www.globalsocialleaders.com/gsl-summer-catalyst-at-home/

Beth am flasu Gŵyl Bwyd a Diod Caerdydd o garreg eich drws?

Bob blwyddyn, daw mwy na 100 o gynhyrchwyr crefftus, masnachwyr bwyd annibynnol a gwerthwyr bwyd stryd i osod stondinau ym Mae Caerdydd ar benwythnos cyntaf mis Gorffennaf ar gyfer Gŵyl Bwyd a Diod Caerdydd - ond eleni caiff y bwyd (ynghyd â blas o'r profiad gŵyl) ei ddosbarthu yn syth at eich drws.

Mae gwefan newydd yr ŵyl yn cynnal ryseitiau, cerddoriaeth a marchnad ar-lein lle y gall ymwelwyr archebu ystod o fwyd a diod lleol a rhyngwladol o'r ansawdd gorau - pethau fel cacennau blasus, marinadau, olew â blas, cyffeithiau, jin a seidr arbenigol, a mwy - yn uniongyrchol o'r bobl sy'n eu cynhyrchu:
https://www.cardifffoodanddrinkfestival.com/

Bydd gwefan Gŵyl Bwyd a Diod Caerdydd ar gael drwy gydol mis Gorffennaf.